OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 1797 (Cy.227)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Ysgolion Canol) (Cymru) 2012

Gwnaed - - - - *6 Mehefin 2012*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - *10 Mehefin 2012*
Yn dod i rym - - *1 Medi 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 5(4) a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Ysgolion Canol) (Cymru) 2012, a deuant i rym ar 1 Medi 2012.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dirymu ac arbedion

2.—(1) Mae'r rheoliadau a ganlyn wedi eu dirymu o ran Cymru—

(a) Rheoliadau Addysg (Ysgolion Canol) 1980(**2**); a

(b) Rheoliadau Addysg (Ysgolion Canol) (Diwygio) 1994(**3**).

(2) Mae'r rheoliadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yn parhau i fod yn gymwys mewn perthynas â'r cynigion hynny sydd wedi eu rhoi ar waith cyn y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

Dehongli

3. Yn y Rheoliadau hyn—

(**1**) 1996 p.56. Diwygiwyd adran 569(4) gan Fesur Addysg (Cymru) 2009 (mccc 5), adran 8. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 5 a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**2**) O.S. 1980/918.

(**3**) O.S. 1994/581.

mae "corff llywodraethu" ("*governing body*") yn cynnwys corff llywodraethu dros dro a gyfansoddir yn unol ag adran 34 o Ddeddf 2002(**4**);

ystyr "cynigion" ("*proposals*") yw'r cynigion y cyfeirir atynt yn adran 28 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**5**) ac sy'n gwneud y canlynol—

(a) pennu oedran sy'n iau na 10 mlwydd 6 mis oed ac oedran sy'n hŷn na 12 mlwydd oed; a

(b) darparu bod yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi i fod yn ysgol sy'n darparu addysg lawnamser sy'n addas i ofynion disgyblion rhwng yr oedrannau a bennir;

ystyr "Deddf 2002" ("*2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002(**6**);

ystyr "dibenion y Ddeddf Addysg" ("*Education Act purposes*") yw dibenion Deddf Addysg 1996 a'r deddfiadau eraill sy'n ymwneud ag addysg;

ystyr "hyrwyddwyr" ("*promoters*") yw personau ar wahân i awdurdod lleol sydd wedi cyhoeddi cynigion i sefydlu ysgol newydd o dan adran 28(2) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

ystyr "pedwerydd cyfnod allweddol" ("*fourth key stage*") yw'r cyfnod a nodir yn adran 103(1)(d) o Ddeddf 2002;

ystyr "ystod oedran ysgol gynradd" ("*primary age range*") yw'r ystod blynyddoedd pan fo disgybl rhwng 11 mlwydd oed a'r oedran ieuaf a bennir yn y cynigion; ac

ystyr "ystod oedran ysgol uwchradd" ("*secondary age range*") yw'r ystod blynyddoedd pan fo disgybl rhwng 11 mlwydd oed a'r oedran hynaf a bennir yn y cynigion.

Dyfarnu bod ysgol ganol yn ysgol uwchradd

4. Mae ysgol ganol, y mae'r cynigion yn ymwneud â hi, i'w thrin yn ysgol uwchradd at ddibenion y Ddeddf Addysg—

(a) pan fo gan yr ysgol honno ystod oedran ysgol uwchradd ehangach o ddisgyblion nag o ddisgyblion o ystod oedran ysgol gynradd;

(b) pan fo'r ysgol yn bwriadu darparu addysg ar gyfer disgyblion hyd nes iddynt beidio â bod o'r oedran ysgol gorfodol mwyach neu eu bod yn hŷn na'r oedran ysgol gorfodol; ac

(c) (pan fo paragraff (b) yn gymwys) pan na fo Gweinidogion Cymru wedi gwneud dyfarniad o dan reoliad 5(2).

Dyfarnu bod ysgol ganol yn ysgol gynradd

5.—(1) Mae ysgol ganol, y mae'r cynigion yn ymwneud â hi, i'w thrin yn ysgol gynradd at ddibenion y Ddeddf Addysg pan fo gan yr ysgol honno ystod oedran ysgol gynradd ehangach o ddisgyblion nag o ddisgyblion o ystod oedran ysgol uwchradd, ac—

(a) pan na fo rheoliad 4(b) yn gymwys; neu

(b) pan fo rheoliad 4(b) yn gymwys ond bod Gweinidogion Cymru wedi gwneud dyfarniad o dan baragraff (2).

(**4**) 2002 p.32, fel y'i diwygiwyd gan baragraff 11(1) a (2) o Ran 1 o Atodlen 2 i Orchymyn Awdurdodau Addysg Lleol ac Awdurdodau Gwasanaethau Plant (Integreiddio Swyddogaethau) 2010 (O.S. 2010/1158).

(**5**) Diwygiwyd y pennawd gan Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (p.40), paragraff 18(1) a (10). Diwygiwyd is-adran (1) gan Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (p.40), paragraff 18(1), (2)(a) a (b) o Atodlen 3 a chan Ran 3 o Atodlen 18, a hefyd gan Ddeddf Addysg 2002, adran 154(1) i (3), a chan baragraff 10(1) a (2) o Ran 1 o Atodlen 2 i Orchymyn Awdurdodau Addysg Lleol ac Awdurdodau Gwasanaethau Plant (Integreiddio Swyddogaethau) 2010, a hefyd gan Fesur Addysg (Cymru) 2011 (mccc 7), adran 26(1) a (2)(a). Diwygiwyd is-adran (2)(a) gan Ddeddf Addysg 2002, paragraff 97(1) a (3) o Atodlen 21, a chan Ddeddf Addysg 2005, Rhan 2 o Atodlen 19, a chan Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, paragraff 18(1) a (3)(a) o Atodlen 3 a hefyd gan Fesur Addysg (Cymru) 2011, adran 26(1) a (2)(b). Diwygiwyd is-adran (2)(b) gan Ddeddf Addysg 2002, adran 73, a chan Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, paragraff 18(1), (3)(b)(i) a (ii) o Ran 3 o Atodlen 18.

(**6**) 2002 p.32.